

YR HAUL, Y MÔR A'R SIOPA – DIGWYDDIADAU YN Y DREF



Y reid arafaf ar y ddaear a dathlu cysylltiadau'r Rhyl gydag un o'r bandiau gorau erioed – dim ond dau o'r digwyddiadau am ddim sydd i ddod i'r dref.

Mae Cyngor Tref y Rhyl wedi datgelu pa ddigwyddiadau cymunedol y gall y dref edrych ymlaen atynt dros yr ychydig fisoedd nesaf.

O lan y môr i'r stryd fawr, bydd gweithgareddau ac atyniadau newydd yn anelu am y Rhyl.

Bydd yr arena ddigwyddiadau yn cynnal Seafest ar Mai 29 pan fydd y reid arafaf ar y ddaear – Y Bad Achub – yn ymddangos, gyda dwy fad achub y Rhyl ei hun. Cynhelir gorymdaith fawr y Sun Birds ar Stryd Fawr y Rhyl ar yr un diwrnod, ynghyd â cherddoriaeth fyw.

Ym mis Gorffennaf, bydd y stryd fawr yn cael ei throi'n Stryd y Beatles i ddathlu'r adeg pan chwaraeodd y Beatles yn ystafell ddawnsio'r Regent Dansette, bellach yn siop boblogaidd ar y stryd fawr. Bydd y band teyrnged lleol, The Cavernites, yn perfformio ar ddydd Sadwrn 15fed Gorffennaf, gyda chyfle i archwilio cysylltiadau'r dref â'r Beatles.

Bydd Nos Galan Gaeaf yn dod â'r ysbrydion a'r ellyll at ei gilydd, cyn i'r cyngor tref gynnal sesiwn sinema am ddim unwaith eto yn Neuadd y Dref y Rhyl ar 9 Rhagfyr.



Meddai Clerc Cyngor Tref y Rhyl Gareth Nickels: “Mae’r cyngor tref unwaith eto yn cynnig amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymunedol am ddim i bobl o bob oedran. Gyda Seafest, byddwn yn dathlu’r môr a thîm y bad achub, a bydd cyfle i gael mynd ar ein reid thema bad achub araf, cyn cael cyfle i ddringo ar fwrdd yr un go iawn. Bydd cerddoriaeth, crefftau morol gan artist lleol enwog, a bydd peintio wynebau hefyd.

“Byddwn hefyd yn edrych yn ôl ar ein hanes gyda Stryd y Beatles. Ac roedd ein tocynnau sinema am ddim mor boblogaidd y Nadolig diwethaf, byddwn yn gwneud hyn eto, ond gyda dwy ffilm eleni – un i’r plant ac un i oedolion. Rydym yn gweithio gyda chroestoriad o grwpiau i wneud i’r digwyddiadau hyn ddigwydd, gan ganolbwyntio ar ddwy brif thema – y stryd fawr a glan y môr – ac rydym bob amser yn falch o glywed gan grwpiau eraill a hoffai chwarae rhan.”

Dyma’r tro cyntaf i’r reid Bad Achub – ynghyd â’r gwelyau crog – ddod i’r Rhyl. Bydd yr artist enwog lleol Ryan Hall, sy’n gweithio ar gloriau comics Dr Who, ac sy’n adnabyddus am ei gymeriadau papur 3D, yn helpu pobl ifanc i lunio creadigaethau gyda thema’r môr i fynd gartref gyda nhw.

I gael diweddariadau ar ddigwyddiadau Cyngor Tref y Rhyl, ewch i’w tudalen Facebook - @RhylTownCouncil – neu Twitter @RhylTownCouncil neu www.rhyltowncouncil.org.uk

Delweddau o reid y Bad Achub, pypedau Sun Birds a’r Cavernites i’w gweld yma:
<https://drive.google.com/drive/folders/0B4UloS5giiQeak1JMzI5bXZFR0U?usp=sharing>

Fideo Sun Birds: <https://vimeo.com/159258010>

Diwedd

